



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynllun Rheoli Cynaliadwy – Cefnogi Adfer Natura 2000

Nodiadau Cyfarwyddyd

CYNNWYS	Tudalen
CYFLWYNIAD	2
CYD-DESTUN POLISI	2
PWY SY’N GALLU GWNEUD CAIS	6
GWEITHGAREDDAU CYMWYS	6
GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS.....	6
COSTAU CYMWYS	7
COSTAU ANGHYMWYS	8
Y GYFRADD GRANT UCHAF A’R TROTHWY GRANT UCHAF	9
CYMORTH GWLADWRIAETHOL.....	9
DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS.....	10
GOFYNION ALLWEDDOL	11
THEMÂU TRAWSBYNCIOL	12
SUT I WNEUD CAIS	12
MEINI PRAWF SY’N CAEL EU SGORIO	13
PROSES ASESU CEISIADAU A DYFARNU GRANTIAU	20
AMODAU’R GRANT.....	23
TALU’R GRANT	24
DIWEDD Y PROSIECT	26
GWEITHDREFN APELIO.....	26
GWEITHDREFN GWYNO.....	27
Â PHWY I GYSYLLTU AM RAGOR O WYBODAETH.....	27
ATODIAD A - CRYNODEB O BOLISI ALLWEDDOL LLYWODRAETH CYMRU Y MAE ANGEN EI YSTYRIED	28
ATODIAD B – SAFLEOEDD NATURA 2000 CYMRU	31
ATODIAD C - ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU POSIBL PROSIECTAU	32
ATODIAD D - MEINI PRAWF CYMHWYSEDD A SGORIO	34
ATODIAD E - ARIAN CYFALAF.....	36

**Tudalen y Clawr – Tegeirian y Fign Galchog (Liparis loeselii) yng Ngwarchodfa Natur
Genedlaethol Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr
(Ffotograff Mark Blackmore)**

CYFLWYNIAD

1. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn egluro'r **Cynllun Rheoli Cynaliadwy - Cefnogi Adfer Natura 2000 (SMS – N2K)** a gyflwynwyd dros flwyddyn ariannol 2020/21, a'r math o brosiectau a allai fod yn gymwys i dderbyn cymorth grant. Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd yn ofalus. Yna, os ydych o'r farn y gall eich cynlluniau prosiect fod yn gymwys i dderbyn grant a'ch bod am wneud cais am gymorth o dan y cynllun hwn, anfonwch ffurflen gais wedi'i chwblhau gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost ym Mharagraff 114. Ar ôl derbyn eich cais, bydd eich prosiect yn cael ei arfarnu a'i sgorio yn erbyn meini prawf cymhwysedd. Os yw'ch cais yn llwyddiannus, cynigir grant i chi yn amodol ar gymeradwyo'ch prosiect gyda'r holl ddogfennau ategol.
2. Mae'r SMS – N2K yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw cefnogi buddsoddiad cyfalaf ar raddfa tirwedd sy'n rhoi camau ar waith i wella cyflwr safleoedd Natura 2000. Yn fwy penodol, mae'r camau yn gwella:
 - a) adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision ehangach i'r cymunedau a'r dirwedd gyfagos;
 - b) bioamrywiaeth;
 - c) gallu ecosysteinau i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd.
3. Bydd SMS-N2K yn helpu i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹, ac mae'n cyflawni'n uniongyrchol yn erbyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016² (y Ddeddf), sy'n galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig.

CYD-DESTUN POLISI

4. Mae'r SMS – N2K yn seiliedig ar Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru³ sy'n dangos yr heriau a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Trwy weithredu'r blaenoriaethau hyn, bydd modd helpu i ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau a chyflawni ar draws yr heriau allweddol a nodwyd. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol⁴ yn darparu cyd-destun ar sut y mae safleoedd Natura 2000 yn allweddol er mwyn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd mwyaf. Hefyd, mae'n hanfodol manteisio ar unrhyw gamau gweithredu a ariennir drwy'r grant hwn, lle y bo'n berthnasol, er mwyn cynorthwyo uchelgais Llywodraeth Cymru drwy ei rhaglen lywodraethu⁵ a darparu cyfleoedd ar gyfer twf amgylcheddol fel y'i nodir yn y Cynllun Twf Amgylcheddol [need footnote].

¹ <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-yr-hanfodion>

² <https://llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-taflenni-ffeithiau>

³ <https://llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol>

⁴ <https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur-2015>

⁵ <https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu>

5. Mae [ATODIAD A](#) yn nodi meysydd allweddol y polisïau hyn i'w hystyried wrth wneud cais am y grant hwn.

DIBEN Y CYLLID

Mae'r adran hon o'r canllawiau yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni trwy ddarparu'r cyllid grant.

6. Mae adnoddau naturiol Cymru ymhlith ein hasedau mwyaf gwerthfawr. Maent yn hollbwysig i lwyddiant ein heconomi yn yr hirdymor, i ansawdd ein hamgylchedd naturiol ac i lesiant ein cymunedau.
7. Mae'r angen i fynd i'r afael â heriau rhwng cenedlaethau, fel y newid yn yr hinsawdd a dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn golygu bod angen ymyrryd a gweithredu er mwyn helpu Cymru i dyfu, gwella cydnerthedd a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er mwyn diwallu'r anghenion hyn, mae'n rhaid adfer, gwarchod a gwella bioamrywiaeth mewn safleoedd Natura 2000⁶ a'r dirwedd gyfagos ehangach a phrosesau cysylltedd cysylltiedig gan gynnwys ardaloedd ffermio sydd o werth mawr i natur.
8. Mae gan Gymru 21 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar sy'n agored i niwed a 95 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer rhywogaethau prin eraill a chynefinoedd naturiol cynrychioladol neu dan fygythiad. Gyda'i gilydd fe'u hadwaenir fel Natura 2000, ac ynghyd ag ardaloedd ar draws Ewrop, maent yn creu rhwydwaith digyffelyb o bwysigrwydd rhwngwladol ar gyfer cadwraeth natur. Mae rhwydwaith Natura 2000 Cymru yn cwmpasu mwy na 700,000 o hectarau (8.5% o arwynebedd tir Cymru a 35% o'r dyfroedd tiriogaethol). Mae gofalu am y safleoedd hyn yn rhan annatod o helpu i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ledled Cymru. Mae'r safleoedd hyn yn gwneud y canlynol:–
- Darparu noddfa hanfodol a lefel uchel o warchodaeth ar gyfer 69 o rywogaethau a 55 o gynefinoedd sydd o dan fygythiad rhwngwladol
 - Cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru trwy dwristiaeth, hamdden, ffermio, pysgota a choedwigaeth
 - Darparu gwasanaethau cynnal bywyd hanfodol i bob un ohonom, fel puro ein dŵr yfed a storio carbon
 - Dangos natur ar ei orau i ni, gan roi pleser i filiynau o ymwelwyr bob blwyddyn
9. Mae [ATODIAD B](#) yn fap o safleoedd Natura 2000.
10. Nod penodol SMS-N2K yw cefnogi camau gweithredu i helpu i wella bioamrywiaeth ledled rhwydwaith Natura 2000 a'r ardaloedd cyfagos. Yn unol â

⁶ <https://cdn.naturalresources.wales/media/676202/life-n2k-facts-and-figures-report.pdf?mode=pad&rnd=131474393780000000>

pholisi Llywodraeth Cymru ar Adnoddau Naturiol, nid yw'r safleoedd hyn yn cael eu rheoli ar wahân, ond fel rhan o'r dirwedd ehangach, ac maent yn hanfodol i helpu i sicrhau ecosystemau cadarn.

11. Trwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau sy'n rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yna fwch yn y ddarpariaeth ar gyfer buddsoddiad cyfalaf cysylltiedig i fwrw ymlaen â chynlluniau presennol neu gynlluniau sy'n cael eu datblygu i wella bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd. Mae hyn yn berthnasol iawn i'r broses o wella cynaliadwyedd ecolegol ac economaidd safleoedd Natura 2000 a'r dirwedd lle maent wedi'u lleoli. Mae'n bwysig sicrhau bod yr ardal gyfagos, fel y dalgylch afon, y rhostir cyfagos, yr aber neu'r draethlin gyfagos, yn cael ei gwella hefyd er mwyn gwella cydnheredd adnoddau naturiol a chysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth holl rwydwaith Natura 2000.
12. Hefyd, gall ein tir, ein moroedd a sut rydym yn eu rheoli chwarae rhan bwysig yn y gwaith o liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Bydd gweithio i wella'r cyfraniad hwn trwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein helpu i gyrraedd ein targed statudol o sicrhau gostyngiad o 95% yn allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru erbyn 2050. Dylai prosiectau cyfalaf egluro sut mae'r camau gweithredu yn lliniaru ac yn cyflwyno ymaddasiadau ar gyfer y newid yn yr hinsawdd,⁷ yn cefnogi bioamrywiaeth ac yn gwella cydnheredd.
13. Hefyd, bydd angen i brosiectau ddangos dealltwriaeth dda o gyfleoedd a heriau'r ardal leol a gwmpesir gan y prosiect. Bydd angen sicrhau'r wybodaeth hon trwy'r partion sy'n cydweithio, ffynonellau tystiolaeth lleol a Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.⁸ Bydd Cynlluniau Rheoli Craidd N2K a Chynlluniau Gwella â Blaenoriaeth ar gyfer safleoedd N2K yn darparu arweiniad yn ystod darpariaeth weithredol y prosiectau. Mae ymgysylltu â chymunedau lleol a'u cynnwys yn y broses yn hanfodol hefyd. Mae'r SMS-N2K yn ceisio hyrwyddo dulliau gweithredu arloesol newydd a fydd yn helpu i reoli adnoddau naturiol yn fwy hirdymor er mwyn sicrhau manteision parhaus yn yr ardaloedd gwarchodedig hyn a'r cymunedau yn yr ardal gyfagos.
14. Gall ceisiadau cydweithredol mwy o ran maint gynnwys cydweithredwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn Grantiau Glastir Uwch neu Grantiau Glastir Bach. Bydd y cydweithredwyr hyn yn ymgymryd â gweithgareddau ar lefel fferm a fydd yn cyfrannu at amcanion cyffredinol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mewn achosion o'r fath, bydd angen sicrhau bod cyfrifon prosiectau'n cael eu cadw ar wahân er mwyn osgoi'r perygl o gyllido dwbl.
15. Yn yr un modd, gallai prosiectau wneud cais am gyllid i'w ddefnyddio i sicrhau buddsoddiad cyfalaf pellach sydd wedi'i argymhell gan gynlluniau eraill neu'n ategu cynlluniau o'r fath, ond nad yw'n dibynnu arnynt. Gallai'r rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, gynlluniau economaidd-gymdeithasol Cymunedau Gwledig

⁷ <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd>

⁸ <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy>

Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, fel y Cynllun Rheoli Cynaliadwy,⁹ Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant,¹⁰ y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy,¹¹ neu'r Grant Buddsoddi mewn Busnesau Pren¹².

16. Mae'n ofyniad pwysig bod pob prosiect sy'n cael ei gyllido trwy'r SMS – N2K yn gallu darparu data mapio o weithgareddau arfaethedig y prosiect yng nghynllun y prosiect. Dylai'r rhain gydymffurfio â safonau'r diwydiant. Gwneir hyn er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy o safbwynt dyblygu cyllid. Mae'r SMS – N2K wedi'i gynllunio i ategu a gweithio ochr yn ochr â chyfleoedd cyllido Glastir heb fod y naill yn dibynnu ar y llall. Er bod Glastir yn targedu canlyniadau amrywiol ar sail daliad fferm, gellir defnyddio SMS-N2K i ganiatáu cysylltedd â safleoedd Natura 2000 sy'n ategu'r ymdrechion lleol hyn, fel bod y cynlluniau cyfunol yn gallu sicrhau effaith ar raddfa fwy ar y dirwedd.
17. Dim ond amlinelliad o'r cynllun a sut y mae'n cael ei weithredu yw hwn, a gall y rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwysedd newid.
18. Mae enghreifftiau o weithgareddau a fydd yn cael eu hystyried yn cynnwys:
 - Camau i fynd i'r afael â darnio cynefinoedd gan gynnwys creu, adfer a chysylltedd cynefinoedd ar safleoedd N2K a'r dirwedd neu ardal y môr o'u hamgylch
 - Casglu tystiolaeth i lywio camau pellach
 - Gwella dealltwriaeth o ymarferoldeb hydrolegol safle N2K a'r dalgylch o'i amgylch
 - Rheoli risg clefydau, mesurau bioamrywiaeth
 - Rheoli rhywogaethau goresgynnol
 - Creu coetir, cwmpo coed
 - Gwella ansawdd dŵr, dwr ffo, rheoli gwaddod ac erydiad, carthu
 - Trawsleoli cadwraeth, rheoli ysglyfaethwyr
 - Torri, lladd, pori
 - Addasu sianeli
 - Atgyweirio llwybrau troed
 - Prynu offer cyfalaf
19. Nid rhestr gyflawn mo hon. Mae rhagor o ganllawiau yn ymwneud â'r mathau o weithgareddau y gellir ymgymryd â nhw ar gael yn [ATODIAD C](#).

⁹ <https://llyw.cymru/cynllun-rheoli-cynaliadwy>

¹⁰ <https://llyw.cymru/cynllun-galluogi-adnoddau-naturiol-a-llesiant-yng-nghymru>

¹¹ <https://llyw.cymru/grant-cynhyrchu-cynaliadwy>

¹² <https://llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren>

PWY SY’N GALLU GWNEUD CAIS

Mae’r adran ganlynol yn nodi pwy sy’n gallu gwneud cais, gweithgareddau cymwys ac anghymwys ac uchafswm ac isafswm y grantiau a ganiateir o dan y cynllun hwn.

20. Mae’r cynllun hwn yn agored i geisiadau gan BBaChau¹³ a busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil, elusennau, ffermwyr, coedwigwyr, grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob corff anllywodraethol). Mae hyn yn cynnwys cymdeithasau perchenogion a choetiroedd cymunedol, ymddiriedolaethau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau lleol.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

21. **Datblygu a chynllunio** i fwrw ymlaen yn uniongyrchol â gweithgareddau cyfalaf er mwyn gwella safleoedd Natura 2000 ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gwella gwasanaethau ecosystemau a lliniaru ac ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd.
22. **Camau gweithredu (ar y cyd yn ddelfrydol)** i wella safleoedd Natura 2000 gyda’r bwriad o liniaru neu ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd a/neu weithgareddau rheoli tir neu forol cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a darparu gwasanaethau ecosystem a manteision lluosog.
23. **Gwaith ymchwil, cyngor technegol ac astudiaethau dichonoldeb** - mae’n bwysig sicrhau bod y gweithgarwch cywir wedi’i leoli yn y lle cywir i sicrhau’r canlyniadau gorau. Felly, mae gwaith modelu, cyngor technegol ac astudiaethau dichonoldeb yn gymwys ar gyfer cyllid ar yr amod eu bod yn cefnogi’r buddsoddiad cyfalaf yn uniongyrchol.
24. **Monitro a Sicrhau Asedau** – gweithgareddau i ddangos allbynnau a chanlyniadau posibl y buddsoddiad cyfalaf, trwy fonitro’r effeithiau, gan sicrhau bod asesiad sylfaenol ar waith cyn cymryd camau a mesur y newidiadau dilynol. Mae cost sicrhau asedau neu asesu yr effaith ar allbynnau y gweithgareddau cyfalaf yn weithgaredd cymwys.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

25. Mae nifer o weithgareddau a buddsoddiadau yn anghymwys ar gyfer cymorth o dan y mesur hwn:
- (a) Taliadau i berchnogion, ffermwyr neu goedwigwyr am waith cyfalaf y maent wedi’i gwblhau ar eu tir eu hunain, ac eithrio 26(e).

¹³ https://ec.europa.eu/growth/smes/business-friendly-environment/sme-definition_en

- (b) Taliadau i dirfeddianwyr, rheolwyr morol, ffermwyr neu goedwigwyr am weithgareddau rheoli tir neu forol parhaus, ac eithrio 26(e).
- (c) Buddsoddi yng nghynhyrchu cynradd cynnyrch amaethyddol neu bren, gan gynnwys camau a fyddai'n gymwys am gyllid o dan y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPGS) neu'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS), ac eithrio 26(e).

COSTAU CYMWYS

26. Costau Cyfalaf

Gall cymorth o dan SMS – N2K gynnwys rheoli tir dan contract,¹⁴ - peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- (a) Prynu eitemau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli tir, fel coed, planhigion perthi, ffensys ac eitemau gwaith cyfalaf sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau.
- (b) Costau cyffredinol a gafodd eu hysgwyddo wrth osod y gwaith cyfalaf, sy'n cynnwys costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio offer.
- (c) Ar sail cynseiliau sydd wedi'u gosod trwy raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gellir defnyddio tua 10% o gyfanswm y dyfarniad i sefydliad i reoli/gweinyddu'r prosiect o fewn y cyfalaf a ddyrennir.
- (d) Prynu peiriannau ac offer hyd at werth yr ased ar y farchnad.
- (e) Os tybir bod gan y peiriannau neu'r cyfarpar werth cynhyrchu cynradd, neu werth fel ased ar gyfer cwmni, sefydliad neu unigolyn sy'n elwa, y mae ei incwm craidd yn seiliedig ar gynhyrchu cynradd (coedwigwr, ffermwr, pysgotwr) ystyrir bod yr asedau yn gyllid de-minimis. Mae'n rhaid i gymhwysedd yr ased hwn gydymffurfio â gofynion de-minimis. Rhaid i'r eitemau hyn beidio â bod yn uwch na therfynau de-minimis perthnasol neu fwy nag 20% o'r grant sy'n destun y cais. Mae'r adran ar gymorth gwladwriaethol isod yn darparu mwy o wybodaeth.
- (f) Caffael neu ddatblygu meddalwedd gyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfraint a nodau masnach.
- (g) Ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau dylunio technegol eraill, arolygon safleoedd a ffioedd proffesiynol fel ffioedd sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; mae ffioedd a ysgwyddir i sicrhau caniatâd, trwyddedau a chydysyniad statudol hefyd

¹⁴ Mae hwn yn ganllaw dilys ar arferion caffael da: <https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-templad-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus>

yn gymwys hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u talu cyn eu cymeradwyo ar yr amod eu bod yn hanfodol ar gyfer rhoi'r prosiect cyfalaf ar waith.

27. Mae [ATODIAD E](#) yn darparu canllawiau ar gostau cyfalaf.

COSTAU ANGHYMWYS

28. Mae'r eitemau neu'r mathau canlynol o wariant yn **anghywmwys**;

- a) costau refeniw ar gyfer gweinyddu'r gwaith o sefydlu a rhedeg grŵp cydweithredol.
- b) costau refeniw i helpu i roi gwybod am y gweithgareddau.
- c) costau staff cyffredinol a rhent ar gyfer safleoedd y tu allan i gostau rheoli prosiect wedi'u cyfalafu.
- d) prynu tir.
- e) prynu adeiladau.
- f) prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau ac unrhyw fath arall o gludiant personol (i ba ddiben bynnag).
- g) prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (fel lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl).
- h) taliadau i reolwyr tir am gynnal gweithgareddau ar eu tir.
- i) taliadau rheoli cylchol i reolwyr tir ar gyfer rheoli tir yn barhaus.
- j) unrhyw waith ffisegol ar y safle neu wariant arall a ysgwyddir cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan roddwr y grant.
- k) gwaith dros dro nad oes ganddo gysylltiad **uniongyrchol** â gweithredu'r prosiect.
- l) costau cynnal a chadw ar gyfer adeiladau, peiriannau neu offer presennol.
- m) atgyweirio tebyg am debyg.
- n) costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu fel elw'r prydleswr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant.
- o) costau trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill y gellir eu hadennill gan y buddiolwr, costau gweinyddol a staff neu iawndal a delir i drydydd parti am ddifeddiant, ac ati.
- p) gorbenion a ddyrennir neu a ddosrennir ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na chyfraddau ar gyfer costau tebyg a ysgwyddir gan fecanweithiau cyflawni tebyg eraill.
- q) gwariant tybiannol.
- r) taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur wleidyddol.
- s) dibrisio, amorteiddio ac amharu ar asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd.
- t) darpariaethau.
- u) rhwymedigaethau digwyddiadol.
- v) hapddigwyddiadau.
- w) difidendau i gyfranddalwyr.

- x) taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun cymorth gwladwriaethol a gymeradwywyd).
- y) taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd.
- z) costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr.
- aa) costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben.
- bb) taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido.
- cc) iawndal am golli swydd.
- dd) dyledion drwg yn deillio o fenthyciadau i weithwyr cyflogedig, perchnogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain.
- ee) taliadau am anrhegion a rhoddion.
- ff) adloniant personol (gan gynnwys alcohol).
- gg) dirwyon a chosbau statudol.
- hh) dirwyon ac iawndal troseddol.
- ii) costau cyfreithiol mewn perthynas ag ymglyfreitha.
- jj) TAW y gellir ei hadennill.

Y GYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF

29. Swm y grant yw cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at ariannu'r prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru;

Os oes cyllid cyhoeddus arall o'r UE neu'r DU wedi'i sicrhau i gefnogi costau prosiect, byddant yn cael eu disgowntio yn erbyn y grant a ddyfernir.

30. Y trothwy grant uchaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect unigol yw **£4,000,000**.

31. Y trothwy grant isaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect unigol yw **£10,000**.

32. Fel canllaw, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i brosiectau gael eu cyflwyno sy'n rhwng £50,000 a £500,000.

33. Y gyfradd grant uchaf yw 100%

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

34. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu SMS-N2K, a'i nod yw hwyluso gwaith cyfalaf er budd y cyhoedd. Ar gyfer y gweithgareddau hyn, mae'n cyfateb i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy o dan Fesur 16 (Erthygl 35 o Reoliad (UE) 1305/2013) o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Yn y cyswllt hwn, cyflwynir SMS-N2K ar sail dim cymorth ac eithrio:

35. Lle caiff camau eu hystyried yn gymorth gwladwriaethol ond eu gweithredu ar safleoedd gwarchodedig (e.e. Natura 2000, Gwarchodfa Natur Genedlaethol, SoDdGA, Parc Cenedlaethol); gellir cymhwyso Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol

Llywodraeth Cymru - Cynllun Cadwraeth Diwylliant a Threftadaeth, Cymorth Gwladwriaethol rhif cyfeirnod: SA.49637.¹⁵ Dylai'r gweithgareddau hyn ychwanegu gwerth at ganlyniadau a manteision y prosiect ond ni ddylent fod yn orfodol i gyflawni'r camau gweithredu a ddarperir ar sail dim cymorth.

36. Os oes posibilrwydd bod gweithgarwch o natur 'economaidd', dylai fod yn bosibl darparu cymorth trwy'r rheoliad de-minimis diwydiannol neu amaethyddol. Os yw deiliad yr ased yn rhan o'r sector amaethyddol, mae'n rhaid i gymhwysedd yr ased hwn gydymffurfio â Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1408/2013¹⁶ a'r gwelliant cysylltiedig - Rheoliad y Comisiwn (EU) 2019/316¹⁷. Rhaid i'r eitemau hyn beidio â bod yn uwch na therfynau de-minimis perthnasol neu fwy nag 20% o'r grant sy'n destun y cais. Ar gyfer pob deiliad ased arall, mae'n rhaid i gymhwysedd yr ased hwn gydymffurfio â Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/2013¹⁸. Dylai'r gweithgaredd ychwanegu gwerth at ganlyniadau a manteision y prosiect ond ni ddylai fod yn orfodol i gyflawni'r camau eraill.
37. Dylai pob ymgeisydd am grant gwblhau ei asesiad ei hun mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol er mwyn nodi risgiau a chwmpas, yn seiliedig ar y gweithgaredd a'r modelau cyflenwi sy'n cael eu cynnig. Dylid cynnwys yr asesiad hwn yn adran asesu cymorth gwladwriaethol y ffurflen gais.
38. Bydd triniaeth cymorth gwladwriaethol y gweithgareddau sy'n cael eu cwblhau yn cael ei chynnwys fel atodlen i'r Llythyr Cynnig Grant.

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

39. Bydd prosiectau'n cael eu dewis trwy broses ymgeisio gystadleuol. Bydd manylion y prosiect arfaethedig yn cael eu cyflwyno fel cais gan ddefnyddio'r ffurflen gais sydd wedi'i darparu. Mae'r amserlen ar gyfer dyddiad cau'r ffenestr gystadleuol wedi'i nodi ym mharagraff 63. Bydd hon yn broses gystadleuol.
40. Bydd statws yr ymgeisydd fel endid cyfreithiol yn cael ei asesu trwy broses diwydrwydd dyladwy. Ni asesir unrhyw gais gan unrhyw ymgeisydd nad yw'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer diwydrwydd dyladwy am arian.
41. Caiff y ceisiadau eu hasesu a'u sgorio yn unol â'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 58-61 ac yn [ATODIAD D](#). Caiff prosiectau sy'n sgorio'n uwch na'r trothwy cyllido eu sgorio. Bydd y prosiectau llwyddiannus yn cael eu dewis gan ddechrau â'r prosiectau â'r sgoriau uchaf nes y cyrhaeddir cyfanswm yr arian grant sydd ar gael.

¹⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/171130-gber-culture.pdf>

¹⁶ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32013R1408&from=EN>

¹⁷ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32019R0316&from=EN>

¹⁸ <http://www.legislation.gov.uk/eur/2013/1407>

42. Bydd y tranche cyntaf o brosiectau llwyddiannus yn cael eu gwahodd i dderbyn y cynnig grant a darparu gwybodaeth ariannol a darpariaeth derfynol ar gyfer atodlenni'r llythyr cynnig grant o fewn 14 diwrnod i'r hysbysiad.
43. Bydd y cynnig yn dod i ben os nad yw wedi'i dderbyn o fewn 14 diwrnod i gyhoeddi'r hysbysiad. Bydd unrhyw gyllid sy'n weddill ar ôl y cyfnod hwn yn cael ei gynnig mewn ail dranche i'r prosiectau nesaf â'r sgoriau uchaf nes cyrraedd cyfanswm y cyllid neu nes bod pob prosiect sy'n sgorio dros y trothwy ariannu wedi'i gyrraedd. Bydd yr un amod 14 diwrnod i dderbyn y cynnig grant yn berthnasol i'r ail dranche hefyd.
44. Po fwyaf yw pwysigrwydd y prosiect a'r cyfraniad y mae'n gallu ei wneud i'r blaenoriaethau polisi priodol a'r meini prawf dewis, y mwyaf tebygol ydyw o sgorio'n dda.
45. Prosiectau sy'n gallu dangos arian cyfatebol neu gymorth neu ymrwymiad 'mewn nwyddau' gan gyfranogwyr. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r prosiect ond mae'n bosibl na fydd yn cael ei ystyried wrth gyfrifo'r gost gymwys.
46. Bydd cynlluniau prosiectau llwyddiannus sy'n derbyn cynigion grant yn cael eu hadolygu yn unol â pharagraff 42. Nid yw hon yn broses gystadleuol, ond bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddarparu'r holl wybodaeth a sicrwydd angenrheidiol cyn cyhoeddi llythyr dyfarnu grant.

GOFYNION ALLWEDDOL

47. Y cyfnod cymorth ar gyfer prosiect yw blwyddyn ariannol 2020/21.
48. Ni fydd y prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.
49. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid llenwi bwlch isaf sydd ei angen i'r prosiect fynd rhagddo.
50. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos bod y materion canlynol wedi'u hystyried hefyd:
 - a) mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i sicrhau, lle bo angen;
 - b) mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i sicrhau, neu mae tystiolaeth y byddant ar waith, lle bo angen;
 - c) ar gyfer sefydliadau neu gymdeithasau sy'n bodoli eisoes, rhaid profi hyfywedd economaidd y prosiect a'r sefydliad trwy ddarparu cyfrifon am dair blynedd yn olynol cyn dyddiad cais llawn yr ail gam a rhagolygon ariannol dros gyfnod y prosiect. Bydd yn ofynnol i sefydliadau neu gymdeithasau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiadau'r cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sydd ei hangen i ddilysu cynigion y prosiect;
 - d) dylai cydymffurfiaeth â chyfraith y DU a'r UE yn ymwneud â chyfle cyfartal a phrosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol;

- e) cydymffurfio â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch; lle bo'n briodol a/neu angenrheidiol.

THEMÂU TRAWSBYNCIOL

51. Bydd gofyn i chi egluro sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at bob un o'r meysydd canlynol:
- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd;
 - Datblygu Cynaliadwy;
 - Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol;
 - Hyrwyddo'r Gymraeg;
 - Hawliau Plant.
52. Bwriedir i'r themâu trawsbynciol ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl a lliniaru effeithiau andwyol.

SUT I WNEUD CAIS

PROSES YMGEISIO

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno'r broses ymgeisio o gam datblygu'ch syniad am brosiect, beth sydd angen ei gynnwys mewn cais am grant, hyd at y broses asesu a dyfarnu.

Datblygu'ch syniadau

53. Bydd angen i gynigion nodi sut a pham y bydd y prosiect yn gwella'r safle Natura 2000 a datgan yn glir y dystiolaeth a'r sail resymegol sydd wedi llunio'r gweithgaredd a nodwyd. Gall tystiolaeth o angen ddeillio o nifer o ffynonellau, **gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i:**
- Cynlluniau gweithredu safleoedd Natura 2000 penodol
 - Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig¹⁹
 - [Lle - Porth-Daear i Gymru](#)²⁰
 - [Datganiadau Ardal](#) a siarad â swyddogion CNC lleol
 - [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#)
 - [Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol Cymru](#)
 - Atlas NBN Cymru

¹⁹ <https://llyw.cymru/bioamrywiaeth-a-chadwraeth-forol>

²⁰ <http://lle.gov.wales/catalogue/item/ProtectedSitesSpecialAreasOfConservation/?lang=cy>
<http://lle.gov.wales/catalogue/item/ProtectedSitesSpecialProtectionAreas/?lang=cy>
<http://lle.gov.wales/catalogue/item/SACSPAMonitoringProgrammeResults/?lang=cy>

- [i-Tree Eco](#)
 - Porth [Open Geography](#) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
 - Setiau data cenedlaethol yn ymwneud â materion penodol (e.e. llifogydd)
 - Cynlluniau mwy hirdymor lleol, gwybodaeth a'r blaenoriaethau oddi mewn iddynt (e.e. Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, cynlluniau Seilwaith Gwyrdd ac ati)
54. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio [Lle](#) i goladu gwybodaeth ofodol allweddol y gellir ei defnyddio i helpu i ddangos tystiolaeth mewn ceisiadau.
55. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd fod wedi cynnal trafodaethau gyda swyddogion perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y prosiect arfaethedig yn rhoi'r camau blaenoriaeth ar waith sy'n berthnasol i'r safle. Y cyfeiriad e-bost canlynol yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymgeiswyr sy'n chwilio am gymorth ac arweiniad gan CNC:

sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yr hyn y dylai'ch cais ei gynnwys

56. Mae'r wybodaeth a ddarperir o dan bob un o'r penawdau yn rhan bwysig o'r meini prawf dethol a ddefnyddir yn y broses asesu ac arfarnu er mwyn gwneud penderfyniad am ddyfarnu cymorth grant i'r prosiect.
57. Mae templedi ar gyfer gwneud cais wedi'u darparu ac maent yn cynnwys y penawdau canlynol. Pennir uchafswm geiriau ar gyfer ymatebion i bob adran.

MEINI PRAWF SY'N CAEL EU SGORIO

58. Maen Prawf 1: Manteision y gellir eu dangos i safle N2K

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu esboniad cryno o'r canlynol:

- Lleoliad y gweithgareddau arfaethedig a'r safle/safleoedd N2K y mae'r camau gweithredu yn ei gefnogi/eu cefnogi
- Yr hyn sydd ei angen i gefnogi'r safle N2K nad oes modd ei ariannu yn rhywle arall
- Y rhestr o gamau gweithredu, gwaith cyfalaf, pryniannau cyfalaf sydd eu hangen
- Sut a pham y bydd y camau gweithredu hyn yn sicrhau gwelliant i'r safle N2K (mae angen cynnwys tystiolaeth o angen a sicrwydd nad yw'r prosiect yn dyblygu darpariaeth bresennol)
- Os yw camau gweithredu'n cael eu cynnig y tu allan i ffiniau safle N2K, mae angen nodi sut fydd y camau gweithredu yn cefnogi cydnherthedd a chysylltedd y safle

- Sut mae unrhyw gamau yn lliniaru'r newid yn yr hinsawdd neu'n ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd
- Beth fydd yr allbynnau/canlyniadau disgwyledig a manteision y camau hyn yn y pen draw. Mae tabl wedi'i ddarparu isod i'ch helpu.

Er ei bod yn bwysig bod manteision amgylcheddol gwella cyflwr y safle Natura 2000 yn gwbl allweddol, gall hyn gynnwys manteision economaidd-gymdeithasol hefyd e.e. gwella hygyrchedd, camau gweithredu i gynyddu cynaliadwyedd economaidd, asedau cyfalaf addysg neu lesiant (fel byrddau dehongli).

59. Maen Prawf 2: Gwariant y Prosiect a Gwerth am Arian

Yn yr adran hon dylai ymgeiswyr egluro sut y bydd gweithgareddau'r prosiect yn sicrhau gwerth am arian. Dylai'r ymgeisydd esbonio sut yr ystyrir bod costau'r prosiect yn rhesymol, gan ystyried cwmpas, graddfa ac amserlen y cynigion. Byddai cynnig rhagorol yn dangos sut y penderfynwyd bod costau'n rhesymol trwy gyfeirio at ymarferion dyfynbris; costau safonol o weithgareddau blaenorol; cymariaethau'r diwydiant megis tablau QS neu ddadansoddiad technegol annibynnol. Mae angen darparu tystiolaeth o fwriad i gynnal ymarferion dyfynbris. Lle y bo'n briodol, dylid dangos sut y cafodd dewisiadau gwahanol ar gyfer cyflawni amcanion y prosiect eu hystyried, ac egluro sut a pham y penderfynwyd ar y dewis terfynol. Wrth weithio mewn safleoedd Natura 2000 mae'n bwysig bod rheolwr/perchennog y safle a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan yn y broses hon er mwyn sicrhau y bydd y prosiect yn cyflawni'n effeithiol yn erbyn o leiaf un o'r blaenoriaethau hysbys ar gyfer y safle.

Dylai'ch cynnig gynnwys:

- dadansoddiad o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r prosiect gan ddefnyddio'r templedi a ddarparwyd;
- unrhyw gyfraniadau arian cyfatebol ehangach gan sefydliadau partner;
- esboniad o sut mae costau'r prosiect yn cael eu hystyried yn rhesymol (gan ystyried cwmpas, graddfa ac amserlen y cynigion);
- nodi costau cyfalaf yn glir yn unol â'r cyfyngiadau a nodir yn y canllawiau hyn;
- y dulliau o ddosbarthu cyllid grant er mwyn rhoi prosiectau ar waith
- cadarnhad bod y gweithgareddau'n ychwanegu at y gweithgareddau presennol ac nad ydynt yn eu disodli/eu dyblygu'n ddiangen
- cadarnhad nad yw'r gweithgareddau eisoes yn cael eu hariannu gan ffynhonnell arall. (Ariannu deuol).

Ar gyfer ei grantiau prosiect, mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu i gostau gael eu cynnwys ar sail adennill costau llawn yn unol â [Cynllun Trydydd Sector](#) Llywodraeth Cymru.

Mae canllawiau pellach ar adennill costau llawn a chostau symlach (gan gynnwys modelau priodol ar gyfer cyfrifo cyfraniad teg tuag at orbenion) ar gael yn:

[Adennill Costau Llawn: canllaw a phhecyn cymorth ar ddyrannu costau](#)

60. **Maen Prawf 3: Y gallu i gyflawni yn unol â'r amserlen a defnyddio arian cyfalaf**

Bydd angen i chi roi esboniad o'r canlynol:

- hyfywedd y prif ymgeisydd.
- cydymffurfiaeth gyfreithiol.
- hyfywedd ariannol y prosiect, gan gynnwys y strategaeth ymadael.
- trefniadau rheoli prosiect.
- pwy yw'r partneriaid/cydweithwyr cyflenwi allweddol.
- cymorth ac ymrwymiad pob cydweithiwr.
- y trefniadau llywodraethu.
- y trefniadau rheoli prosiect y mae angen i chi eu rhoi ar waith i gyflwyno'r prosiect; ac amserlen ar gyfer cyflwyno'ch prosiect.
- pob caniatâd a chydysyniad angenrheidiol sydd wedi'i sicrhau neu a fydd yn cael ei sicrhau.
- risgiau a allai effeithio ar y prosiect a'r canlyniadau.

Tabl Risg Enghreifftiol

Beth yw'r risg?	Pa mor debygol ydyw o ddigwydd?	Beth fyddai'r canlyniadau i'r prosiect pe bai'n digwydd?	Beth allai osgoi'r risg, neu sut y gellid lleihau'r effaith?
Colli staff allweddol	Canolig	Colli profiad neu sgiliau. Effaith ar allu i gyflawni prosiect.	Hyfforddiant staff er mwyn sicrhau cydnerthedd.
Anghydfod a gwrthdaro rhwng partneriaid	Canolig	Partneriaid yn methu cytuno ac yn methu cyflawni allbynnau a chanlyniadau ar y cyd	Deialog reolaidd ar nodau cyffredin. Datblygu gweithdrefn anghydfod.

Bydd angen i'ch cynnig nodi'r trefniadau monitro ar gyfer eich prosiect gan gynnwys:

- sut y byddwch yn monitro allbynnau uniongyrchol;
- sut y byddwch yn mesur ac yn dangos tystiolaeth o'ch canlyniadau a'ch manteision traws-ddisgyblaethol a nodwyd, gan gynnwys effaith a llwyddiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
- cynigion ar gyfer sut rydych yn bwriadu rhoi sicrwydd am unrhyw asedau sy'n cael eu creu ac yn cwblhau asediad o effaith y gweithgareddau ar safle N2K a'r tirwedd cysylltiol; ac
- y cysylltiad rhwng gweithgarwch monitro hawn a sicrwydd o asedau ac unrhyw weithgarwch gwerthuso ychwanegol (y tu allan i gwmpas y grant cyfalaf hwn).

Dylai'r rhain fod yn gymesur â maint y grant y gwneir cais amdano a dylent ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n briodol i'r broses gyflawni, gan gwmpasu dulliau ffurfiannol a chrynodol fel bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y prosiect.

Hefyd, a fydd eich prosiect:

- a) yn effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safle Confensiwn Ramsar, Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer Adar neu Ardal Cadwraeth Arbennig. Rhaid i chi ddarparu manylion yr ardaloedd dan sylw ac unrhyw gamau cydymffurfio gofynnol sydd wedi'u cymryd neu sydd i'w cymryd (er enghraifft, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lle bo angen, Asesiad Priodol lle bo angen)
- b) yn effeithio ar rywogaethau a warchodir o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 neu Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Rhaid i chi ddarparu manylion i nodi'r ardaloedd/rhywogaethau dan sylw a'r camau cydymffurfio sydd wedi'u cymryd neu sydd i'w cymryd (er enghraifft, cais/ceisiadau am drwydded).
- c) angen unrhyw ganiatâd bywyd gwyllt neu gynefinoedd eraill. Rhaid i chi ddarparu'r manylion.

61. **Maen Prawf 4: Mabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR)**

Mae angen i'r cais ddangos sut y mae wedi cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth gynllunio a chyflwyno'r gweithgaredd arfaethedig, a dangos yn glir bod yr egwyddorion wedi'u hystyried wrth ddylunio'r prosiect. Nod rheoli adnoddau yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision sy'n deillio ohonynt a, thrwy hynny, diwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Byddwch yn cael eich asesu ar sut y bydd cynnig eich prosiect yn bodloni'r tair egwyddor ganlynol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n bwysig ar gyfer yr arian cyfalaf hwn:

- a) Mae gwella cydnerthedd ecosystemau yn nod craidd. Dylai'r cais nodi sut mae'r prosiect yn ystyried **cydnerthedd ecosystemau**, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
 - Amrywiaeth o fewn ecosystemau a rhwng ecosystemau
 - Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn i ecosystemau
 - Graddfa ecosystemau
 - Cyflwr ecosystemau
- b) Ystyried **manteision** a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau. Mae ecosystemau iach yn arwain at nifer o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'n bwysig bod prosiectau'n nodi sut y maent yn bwriadu cymryd camau i wella adnoddau naturiol a'r manteision y maent yn eu darparu, yn enwedig yn y cyd-destun lleol.
- c) Ystyried **canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor** camau gweithredu. Bydd angen i'r prosiect ystyried sut y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu cynnal ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben.

Yn ogystal â'r meini prawf a asesir, gofynnir i bob ymgeisydd ystyried

Themâu Trawsbynciol

62. Bydd angen i'r cais ddangos y gellir defnyddio camau gweithredu'r prosiect lle bo hynny'n berthnasol i gyfrannu at bob un o'r meysydd canlynol:

- a) Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd.
- b) Datblygu Cynaliadwy.
- c) Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.
- d) Hyrwyddo'r Gymraeg.
- e) Hawliau Plant.

Cymorth Gwladwriaethol

63. Bydd angen i chi nodi sefyllfa'r prosiect mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol. Oherwydd natur y cyllid ar gyfer prosiectau penodol, bydd angen cwblhau asesiad o natur y cymorth fesul prosiect. Cytunir ar hyn ac fe'i rheolir trwy atodlen benodol o'r llythyr cynnig grant ar gyfer prosiectau llwyddiannus.

PROSES ASESU CEISIADAU A DYFARNU GRANTIAU

Amseroedd a dyddiadau cau

64. Nodir isod yr amserlen ar gyfer agor y ffenestr ar gyfer ceisiadau SMS – N2K a'r asesiadau dilynol:

Gweithgaredd	Amseriad
Ffenestr ar gyfer cynigion grant yn agor	7 Gorffennaf 2020
Cyflwyno ceisiadau (ffenestr 5 wythnos)	10 Awst 2020
Hysbysu ymgeiswyr	22 Medi 2020
Gwiriadau diwydrwydd dyladwy a chymorth gwladwriaethol	22 Medi 2020
Grantiau newydd yn cychwyn	O Medi 2020

65. **Ni ddylech ddechrau unrhyw waith nes eich bod wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru a'ch bod wedi llofnodi'r llythyr cynnig grant. Ni fydd unrhyw brosiectau sy'n torri'r rheol hon yn cael eu hystyried ar gyfer grant.**
66. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **bydd yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os yw'ch cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, swm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**
67. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi'ch cais os ydych yn dymuno **ond mae'n rhaid i'r ffurflen gais gael ei llofnodi gennych chi ac nid gan yr ymgynghorydd. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth sydd wedi'i darparu i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**
68. Pan fyddwch yn cyflwyno'r ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod wedi'i derbyn. Os yw'r prosiect yn anghymwys, byddwch yn cael gwybod am hynny cyn gynted â phosibl. Os yw'r cais yn gymwys, bydd yn destun arfarniad technegol o'i allu i wella safle Natura 2000. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd cymorth ar gyfer y cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, fel y'u disgrifir ym mharagraffau 58-61.

Panel asesu

69. Bydd aelodau panel sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a CNC yn asesu ansawdd y ceisiadau sy'n cael eu derbyn ac yn dyrannu sgôr iddynt. Byddwn yn cysylltu â chi os oes angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurhad arnom, neu os ydym yn dymuno cyfarfod â chi i drafod eich cais ymhellach. Bydd y panel asesu yn cymedroli i gytuno ar sgoriau consensws ar gyfer pob cais am grant.
70. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu a'u sgorio yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u hatodi ([Atodiad D](#))

Mae tri chanlyniad posibl:

- a) Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod cyn gynted â phosibl.
 - b) Mae'ch prosiect yn gymwys ac mae wedi'i gymeradwyo ar gyfer dyfarniad.
 - c) Mae'ch prosiect yn gymwys ond nid yw wedi'i gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Mae hyn yn golygu bod yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer dyfarniad a bod sgôr cais y prosiect yn uwch na'r trothwy ansawdd, ond yn dilyn y broses asesu a dyfarnu gall y cyllid sydd ar gael gefnogi prosiectau â sgôr uwch yn unig.
71. Caiff prosiectau eu cymeradwyo ar gyfer dyfarniad yn ôl trefn sgorio ar sail yr asesiad yn erbyn y meini prawf cymhwysedd. Bydd y Cynllun yn dyfarnu prosiectau llwyddiannus ar sail system tranche. Bydd y tranche cyntaf o brosiectau yn derbyn gwahoddiad i dderbyn cynnig y dyfarniad o fewn 14 diwrnod.
72. Noder y bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod 14 diwrnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyfrifon dwy flynedd diwethaf y sefydliad/ymgeisydd arweiniol, neu yn achos elusennau llai o ran maint, cyfriflenni banc y 3 mis diwethaf, er mwyn ein galluogi i wirio hyfywedd ariannol. Byddwn yn gofyn yn ffurfiol am y rhain pan fydd angen. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y llythyr cynnig grant yn cael ei gwblhau hefyd, a bydd y wybodaeth fanwl am y prosiect yn cael ei chynnwys yn atodlenni'r llythyr cynnig grant.
73. Ni fydd yr ymgeisydd yn cael cynnig grant os nad yw'n cadarnhau bwriad i fwrw ymlaen neu os yw'n methu â darparu digon o dystiolaeth a gwybodaeth ar gyfer diwydrwydd dyladwy, cymhwysedd cyfreithiol neu er mwyn i'r llythyr cynnig grant gael ei gwblhau. Ar yr adeg hon bydd ail dranche o brosiectau yn cael gwahoddiad. Bydd hyn yn parhau nes bod cyfanswm y grant sydd ar gael wedi'i gyrraedd neu nes bod y trothwy sgorio isaf ar gyfer cymorth grant wedi'i gyrraedd.
74. Os na fydd y cais yn llwyddiannus yn dilyn y broses o ddyfarnu grant ar sail system tranche, bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu. Gall ymgeiswyr gyflwyno cais arall am yr un prosiect os bydd ffenestr ddilynol yn agor (gan ddiwygio'r cais os oes angen) **ond dim ond os nad ydynt wedi dechrau'r gwaith.**

75. Os yw'ch cynnig yn aflwyddiannus a'ch bod yn dymuno derbyn adborth, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Grantiau (gweler yr adran isod).
76. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus sydd wedi cadarnhau o fewn 14 diwrnod eu bod yn dymuno bwrw ymlaen, a'u bod wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, yn cael llythyr cynnig grant. Mae'n rhaid iddynt lofnodi a dychwelyd y llythyr hwn o fewn 7 diwrnod er mwyn derbyn yr arian.
77. Gall y broses o ddarparu'r gweithgaredd o dan y cynllun hwn ddechrau o fis Medi 2020.

AMODAU'R GRANT

78. Mae deddfwriaeth amrywiol yn berthnasol i'r SMS – N2K (gweler canllawiau ar wahân ar grantiau Llywodraeth Cymru.²¹) Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnnydd weithredu yn unol â'r deddfwriaeth hon.
79. Mae'r cynnig o grant SMS – N2K yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu leihau swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

80. Rhaid derbyn y grant **a ddyfarnwyd** o fewn saith diwrnod gwaith i'r dyddiad a nodir yn y llythyr cynnig grant. Bydd hyn ar ffurf dychwelyd copi wedi'i lofnodi o'r llythyr cynnig grant.
81. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail datganiadau sydd wedi'u gwneud gennych chi neu'ch cynrychiolwyr yn y ffurflen gais ac yn eich gohebiaeth ddilynol.

Mae gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol yn drosedd.

82. Rhaid i chi beidio â dechrau unrhyw waith ar y prosiect nes y byddwch wedi cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.
83. Rhaid i chi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.
84. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgaredd, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
85. Ni ddylai unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynir gyda chymorth grant gael eu gwaredu, eu trosglwyddo neu eu gwerthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru wrth roi'r prosiect ar waith ac am y pum mlynedd ar ôl dyddiad dod i ben y prosiect.
86. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y'u nodir ym mharagraffau 20-38.
87. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir a chynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol. Ni fydd yr hawliadau'n cael eu derbyn os nad yw hyn yn digwydd a byddant yn cael eu dychwelyd at yr hawlydd.
88. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid amseru na gwerth eich hawliadau y cytunwyd arnynt heb gytundeb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.

²¹ <https://llyw.cymru/canllawiau-llywodraeth-cymru-ar-grantiau>

89. Mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf o fewn chwe mis i ddyddiad dechrau'r prosiect. Os na chyflwynir yr hawliad cyntaf o fewn y cyfnod hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.
90. Dylai prosiectau gael eu cwblhau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni allwch newid hyn heb gytundeb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
91. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn eitemau newydd o dan hawliad yswiriant.
92. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (boed hynny o ffynonellau'r UE neu'r DU).
93. Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd yn ymwneud â'r prosiect gyfeirio at gyfraniad Llywodraeth Cymru at ariannu'r prosiect.
94. Mae'n rhaid cadw cofnodion yn ymwneud â gweithgaredd y busnes a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill megis tendrau neu ddyfynbrisiau cystadleuol, am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad dod i ben y prosiect, fel y'i nodir yn y llythyr cymeradwyo grant.
95. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Comisiwn Archwilio archwilio'r prosiect. Mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth a/neu fynediad at ddogfennau gwreiddiol yn ymwneud â'r prosiect i'r cynrychiolwyr hyn ar gais.
96. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn y cais ac unrhyw ddogfennau ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

TALU'R GRANT

Hawliadau

97. Gallwch wneud hawliadau dros dro yn ystod cyfnod y prosiect. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ar sut i wneud hawliadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r dyfarniad gael ei gadarnhau ac ar ôl gwahodd y cais. Ni fydd hawliadau'n cael eu talu nes bod Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gwariant perthnasol wedi digwydd a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun. Bydd y taliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
98. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol am daliad grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau gwaith ffisegol y prosiect. Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl eitemau cyfalaf a brynwyd neu'r gwaith sydd i'w hawlio wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2021. Mae'n rhaid i'r holl hawliadau terfynol gael eu derbyn erbyn 18 Ebrill 2021 fan bellaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu wneud y taliad. Gall methu â chyflwyno hawliadau olygu y bydd y grant a dalwyd hyd yma yn cael ei adennill.

99. Yn ystod oes y grant, pan gyflwynir hawliadau, gellir craffu arnynt i sicrhau bod y gwariant yn gymwys a'i fod yn cydymffurfio â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, bydd swyddogion yn ymweld â safle'r prosiect a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gwblhau. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn ystod yr ymweliad yn cynnwys: anfonebau gwreiddiol, rhifau cyfresol/peiriannau, tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle y bo'n briodol), system lechyd a Diogelwch gan gynnwys dadansoddi risg, dogfennau Asesiad Risgiau Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, asesiadau o'r effaith ar gynefinoedd, asesiadau o'r effaith amgylcheddol, cofnodion rheoli plâu ac unrhyw gofnodion rheoli statudol eraill y mae'n ofynnol i'r fenter eu cadw. Bydd rhyddhau'r grant yn amodol ar wneud cynnydd digonol.

Hawliadau anghywir a chosbau

100. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; bod yr holl gostau gwirioneddol yn cael eu dangos fel gwariant a dalwyd (mae'r taliad wedi mynd o'r cyfrif banc); bod yr holl eitemau a'r costau yn gymwys a bod yr hawliad yn cael ei gyflwyno'n brydlon.
101. Os yw'r hawliad yn anghywir, bydd yn cael ei leihau i'r swm sy'n gymwys a bydd y grant a delir yn cael ei gyfrifo yn unol â hynny.
102. Bydd swm y gwariant cymwys yn cael ei leihau yn ôl swm y gwall, felly bydd swm terfynol y grant a delir yn is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth oherwydd ni all y grant sydd wedi'i golli gael ei gynnwys mewn hawliadau diweddarach.
103. Os oes gennych unrhyw amheuan am gymhwysedd unrhyw wariant, mae'n rhaid i chi wirio'r sefyllfa **cyn ysgwyddo'r costau**.
104. Ni ddylai ymgeiswyr:
- a) ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn perthynas â'r grant hwn.
 - b) rhwystro arolygydd neu swyddog.
 - c) gwrthod darparu gwybodaeth yn dilyn cais.

ADRODD A MONITRO PROSIECTAU

105. Mewn amgylchiadau arferol, bydd y dull diofyn canlynol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith monitro (oni bai bod yr asesiad ar sail risg yn dangos bod angen defnyddio dull arall):

- a) Adroddiadau cynnydd chwarterol ac yna cyfarfodydd adolygu (sy'n cael eu cynnal bob chwarter fel arfer, ond wedi'u cynllunio ar sail risg, er mwyn monitro cynnydd y prosiect yn erbyn cerrig milltir a thargedau).
 - b) Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu hategu gan ddadansoddiad ariannol, cofrestr risgiau ac astudiaethau achos os ydynt ar gael.
 - c) Canllawiau parhaus ynglŷn â chynnwys hawliadau a'r broses.
 - d) Gwirio agweddau gweinyddol, ariannol, technegol a ffisegol y prosiect (fel y bo angen).
106. Mae'n ofyniad bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl cwblhau'r prosiect. Gofynnir i chi ddarparu adroddiad terfynol ar berfformiad, dri mis ar ôl cwblhau'r prosiect, pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau a nodwyd yn y cais cymeradwy.
107. Os nad yw'r prosiect wedi bodloni'r targedau hyn ac, ar sail y cynnydd gwirioneddol sydd wedi'i wneud, na fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer cymorth grant o dan y cynllun, gellir cymryd camau i adennill y grant a dalwyd.
108. Un o ofynion y dyfarniad grant yw bod cyfarpar sy'n cael ei brynu â chymorth grant SMS - N2K ac unrhyw adeiladau sy'n derbyn grant, yn gorfod cael eu cadw ar y safle, gan sicrhau eu bod yn weithredol ac mewn cyflwr da, a'u bod yn cael eu defnyddio at yr un diben â'r hyn a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect. Mae hyn yn sicrhau hirhoedledd y prosiect ac yn gwarantu cyfran barhaol o fanteision y prosiect i gynhyrchwyr cynradd.
109. Efallai y bydd angen cwblhau ffurflen fonitro arall ddwy flynedd a phum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Cynhelir ymweliadau safle ar ganran o'r prosiectau a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad dod i ben y prosiect er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd yn parhau i berchen ar a defnyddio'r adeiladau a/neu'r offer a brynwyd gyda'r grant a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.
110. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru neu ei chynrychiolwyr archwilio'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd. Gall hyn fod ar ffurf monitro hirdymor ar y safle gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

DIWEDD Y PROSIECT

111. Mae'n rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 18 Ebrill 2021 fan bellaf. Mae'n rhaid sicrhau bod holl weithgarwch y prosiect wedi'i gwblhau yn barod i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio a bod hawliadau'n cael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

GWEITHDREFN APELIO

112. Os yw cais yn cael ei wrthod, bydd y rhesymau dros ei wrthod yn cael eu hesbonio. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud o bosibl er mwyn i'r prosiect fod yn dderbyniol.
113. Os yw cais yn cael ei wrthod o hyd, bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n annibynnol arnynt.

GWEITHDREFN GWYNO

114. Os ydych yn credu ein bod wedi methu â dilyn y weithdrefn gywir wrth ymdrin â'ch cais, gallwch wneud cwyn yn unol â Gweithdrefn Gwyno Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu drwy'r wefan yn:

<https://llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru>

Â PHWY I GYSYLLTU AM RAGOR O WYBODAETH

Mae'r adran hon yn nodi'r unigolion cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau polisi neu ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r grant.

115. Cyfeiriad

Tîm Grantiau Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: sustainablemanagementscheme@llyw.Cymru

Rhif Ffôn: 03000 251566/03000 253655

ATODIAD A - CRYNODEB O BOLISI ALLWEDDOL LLYWODRAETH CYMRU Y MAE ANGEN EI YSTYRIED

Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol

Lle bo hynny'n berthnasol, bydd angen i geisiadau am grant nodi sut y bydd y gweithgaredd arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni meysydd canlynol **Ffyniant i Bawb**:

- Newid y modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal trwy eu darparu o fewn cymunedau, gan newid y pwyslais o drin salwch i lesiant;
- Cefnogi cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch corfforol pobl trwy ffyrdd mwy iach o fyw gan fanteisio ar adnoddau naturiol sylweddol Cymru;
- Helpu i gynnal ac uwchraddio cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd, megis mannau gwyrdd, gan helpu cymunedau i berchnogi asedau yn eu hardal leol;
- Meithrin gallu cymunedau fel lleoedd sy'n cefnogi iechyd a llesiant gwell;
- Meithrin perthynas gynaliadwy â'r Sector Gwirfoddol, yn seiliedig ar y canlyniadau y mae pob un ohonom am eu cyflawni ar gyfer cymunedau, ac ar y model cyllido cywir ar gyfer gwneud hynny;
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu modelau presgripsiynu cymdeithasol.

Polisi Adnoddau Naturiol Cymru

Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r themâu ategol yn y cynllun hwn, yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol canlynol ar gyfer datblygu cydnherthedd ecosystemau, a chyfleoedd lle mae adnoddau naturiol Cymru yn cyfrannu at nodau llesiant a phedwar maes Ffyniant i Bawb ac yn cyflawni yn unol â'r ffyrdd o weithio a'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Maent i gyd yn gydgyssylltiedig ac yn cael eu hamlygu mewn ffyrdd gwahanol mewn lleoedd gwahanol. Felly, dylai pob un ohonynt gael ei ystyried yng nghyd-destun lle wrth ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso.

Yn ogystal â mabwysiadu dull gweithredu ar sail lle, dylid mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd trwy roi camau ar waith sy'n defnyddio dulliau ac atebion seiliedig ar natur (er mwyn cefnogi atebion technolegol neu beirianyddol nad ydynt o fewn cwrdd y gronfa grant hon).

Heriau Cenedlaethol ar gyfer datblygu cydnherthedd ecosystemau

- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth - datblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn
- Diogelu a chynyddu ein storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas
- Cynnal gallu cynhyrchiol - gwella ansawdd pridd a bioddiogelwch
- Cefnogi lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu trwy ddulliau ecosystem
- Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn yr aer a gwella ansawdd yr aer

Hefyd, gall prosiectau arwain at fanteision a chanlyniadau cadarnhaol yn erbyn yr heriau cenedlaethol canlynol fel rhan o'u darpariaeth arfaethedig ehangach o dan y themâu gweithredu ar gyfer y grant hwn:

- Lleihau'r perygl o lifogydd
- Gwella ansawdd dŵr a sicrhau lefelau dŵr

Cyfleoedd Cenedlaethol i adnoddau naturiol Cymru gyfrannu at y nodau llesiant ehangach a chefnogi Ffyniant i Bawb/y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

- Cefnogi dulliau ataliol o ymdrin â chanlyniadau iechyd
- Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd
- Cefnogi cydlyniant cymunedol
- Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog

Ffyrdd o Weithio

Bydd angen i geisiadau ddangos sut y bydd eu cynnig yn helpu i sicrhau manteision lluosog amrywiol. Ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli adnoddau naturiol ac ecosystemau, rydym yn awgrymu y dylai ymgeiswyr allu dangos eu bod yn bodloni gofynion perthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y pum ffordd o weithio), trwy gymhwyso naw egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Lle y bo'n berthnasol, dylai cynigion hefyd geisio dangos sut y gall gweithgarwch y prosiect gryfhau iechyd a chydnerthedd ecosystemau a bioamrywiaeth yn yr ardal a nodwyd, a pha fanteision i'r gymuned a fydd yn deillio o hyn. Dylid defnyddio'r agweddau ar gydnerthedd ecosystemau, fel y'u nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) i wneud hyn os oes modd.

Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

- a) **Rheoli mewn modd ymaddasol**, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd
- b) Ystyried y **raddfa ofodol** briodol ar gyfer gweithredu
- c) Hyrwyddo **cydweithio a chydweithredu**, a chyfranogi ynddynt
- d) Gwneud trefniadau priodol i'r **cyhoedd gymryd rhan** yn y broses o wneud penderfyniadau
- e) Ystyried yr holl **dystiolaeth** berthnasol, a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â **materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch**
- f) Ystyried **manteision** a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
- g) Cymryd camau i **atal** difrod difrifol neu anwrthdroadwy i ecosystemau
- h) Ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd
- i) Ystyried **cydnerthedd ecosystemau**, yn arbennig yr agweddau canlynol:
 - Amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt
 - Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt
 - Graddfa ecosystemau
 - Cyflwr ecosystemau
 - Gallu ecosystemau i addasu

GWELLA CYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU

Er mwyn gwella cydn berthedd ecosystemau, mae angen deall neu fapio lleoedd o safbwynt eu cyfraniad at yr elfennau canlynol o gydnerthedd ecosystemau:

Amrywiaeth – nid amrywiaeth fiolegol yn unig ond hefyd amrywiaeth ddaearegol a ffisegol. At ei gilydd, mae ecosystemau mwy amrywiol (bioffisegol ac, i raddau, cymdeithasol ac economaidd) yn fwy abl i ymdopi â dylanwadau allanol a'u heffeithiau.


Cysylltedd – o fewn ecosystemau a rhyngddynt. Mae cysylltedd yn hwyluso'r broses o symud genynnau, rhywogaethau ac elfennau ecosystemau, megis dŵr, ar draws tirweddau, gan ganiatáu i ecosystemau weithio'n effeithiol ac i addasu'n ofodol, er enghraifft, mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Er hynny, mae angen hefyd ystyried yr agweddau negyddol ar gysylltedd, sef clefydau a thân, lle y gallai rhywfaint o fodwlaedd fod yn fwy dymunol.

Graddfa a maint - Po fwyaf yw'r ecosystem, heb unrhyw ddarnio, y mwyaf cadarn y mae'n debygol o fod. Er enghraifft, er bod clytiau bach o gynefinoedd yn werthfawr, yn enwedig fel rhan o frithweithiau mwy, mae effeithiau ymyl yn cael mwy o effaith ar gynefinoedd darniog, llai, gan effeithio ar fioamrywiaeth unigryw'r cynefinoedd hynny ac ar y gwasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt.

Cyflwr – Mae angen i'r gwasanaethau cynnal sy'n sail i ecosystemau fod mewn cyflwr iach er mwyn iddynt weithio'n effeithiol a darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau pwysig. Mae modd mesur ac ymyrryd, er enghraifft, ar sail rhywogaethau, rolau a swyddogaethau ecolegol, a llif maethynnau, ond gall gallu ecosystem i ddarparu gwasanaethau ecosystemau, yn enwedig gwasanaethau darparu a rheoleiddio, fod yn arwydd da o'i chyflwr.

Yn sgil yr uchod, wrth edrych ar **allu** cyffredinol **ecosystemau i ymaddasu**, mae angen rhoi ystyriaeth benodol i'r cylchoedd ymaddasu a welir mewn llawer o ecosystemau – hynny yw, deall nad yw ecosystemau'n endidau statig ac y byddant yn newid dros amser. Y cwestiwn allweddol yn hyn o beth yw a fydd yr ecosystem o dan sylw yn addasu ac yn newid yn y modd a ddymunir, o ystyried newidiadau a galwadau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol megis y newid yn yr hinsawdd.

ATODIAD B – SAFLEOEDD NATURA 2000 CYMRU



ATODIAD C - ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU POSIBL PROSIECTAU

116. Mae'n bwysig bod unigolion sy'n ymwneud â phrosiectau posibl yn cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod y prosiect posibl a'r gweithgareddau. Bydd SMS- N2K yn cefnogi buddsoddiad cyfalaf ar raddfa tirwedd sy'n rhoi camau ar waith i wella cyflwr safleoedd Natura 2000. Yn fwy penodol, camau i wella:

- a) adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision ehangach i'r cymunedau a'r dirwedd gyfagos;
- b) bioamrywiaeth;
- c) gallu ecosystemau i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd.

Mae'r rhain yn cynnwys camau rheoli tir a gwaith cyfalaf fel:

- creu neu adfer cynefinoedd i wella cysylltedd.
- plannu perthi a choed mewn ffordd strategol. Hefyd, mae hyn yn cynnwys gwelliannau i ffiniau a arweinir gan ganlyniadau, clustogau ffiniau caeau, lleiniau clustogi, adfer perthi a muriau cerrig sychion sydd eisoes yn bodoli.
- coetiroedd a choed sydd wedi'u lleoli a'u rheoli'n well. Gall hyn gynnwys tynnu coed lle bo hynny'n briodol.
- arferion gorau o ran rheoli pridd trwy droi'r pridd yn dda a phori cynaliadwy, ynghyd â phlannu perthi a choed i reoli ffynhonnell neu symudiad llygryddion a gwaddodion posibl (gan gynnwys maetholion o wrteithiau a thail, gwaddod o ddŵr ffo, bacteria o dail a da byw, a phlaladdwyr yn sgil cymhwyso a gwaredu triniaeth).
- gwella draeniad, llif y dŵr a lleihau dŵr ffo ar y wyneb. Lle y bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys creu pwll ac 'ail ddolennu' cyrsiau dŵr.
- ail-wlychu ac adfer priddoedd mawn, gan gynnwys blocio rhostir a ffosydd, creu pyllau bas a chreu llystyfiant newydd.
- mesurau bioddiogelwch.
- gwaredu rhywogaethau goresgynnol a rheoli prysgwydd a rhedyn; gan gynnwys defnyddio peiriannau ffustio a theneuo prysgwydd.
- mesurau pori cynaliadwy a/neu ladd gwair yn bwrpasol er mwyn gwella'n uniongyrchol y broses o adfer cynefinoedd.
- trawsleoli cadwraeth
- mesurau i wella bioddiogelwch ac iechyd a lles anifeiliaid a lleihau effaith da byw ar safleoedd N2K. Gall enghreifftiau gynnwys ffensio, pontydd stoc, gatiau, gridiau gwartheg.
- cynlluniau rheoli coedwigoedd.
- gwaith i wella nodweddion tirwedd er mwyn cynnal ymdeimlad o le yn yr ardal e.e. gwrychoedd, coed, cloddiau pridd a nodweddion hanesyddol neu dirwedd.
- camau i wella amrywiaeth a graddfa cyfleusterau hamdden awyr agored.
- gweithgareddau sy'n helpu i fynd i'r afael â throseddau tirwedd - gan gynnwys tanau bwriadol a thipio anghyfreithlon. Mae enghreifftiau'n

cynnwys cryfhau diogelwch, gwyliadwriaeth awtomataidd, bylchau rhwng llystyfiant i atal tanau, llwybrau mynediad ac arwyddion gwell.

- camau i sicrhau bod nodweddion yr amgylchedd hanesyddol yn goroesi yn yr hirdymor (e.e. dyfrffyrdd, gweirgloddiau), nodweddion archeolegol ac adeiladau hanesyddol (costau cynllunio).
- camau i adfer cynefinoedd a rhywogaethau morol.
- adfer cynefinoedd rhynglanwol sy'n caniatáu adferiad naturiol gan gynnwys adfer traethau a gwaredu gwastraff.
- adfer a diogelu twyni tywod a chreu cynefin rhynglanwol.
- gwaith cyfalaf i leihau difrod o weithgareddau economaidd cymdeithasol ar safleoedd morol megis angorfeydd ecogyfeillgar.
- ailblannu morwellt a gwella'r gwelyau morwellt presennol.
- gwella neu greu cyfleusterau hamdden priodol sy'n parchu cynefinoedd morol ac yn lleihau'r pwysau ar safleoedd morol N2K.
- datblygu deunyddiau dehongli a gwybodaeth i ymwelwyr (e.e. cynefinoedd a rhywogaethau, gwasanaethau ecosystem a nodweddion amgylcheddol hanesyddol).
- camau gweithredu a gwaith i wella mynediad caniataol i'r cyhoedd gan gynnwys cynnal a chyflwyno mynediad caniataol ychwanegol (nid y rhwydwaith hawliau tramwy statudol presennol).

ATODIAD D - MEINI PRAWF CYMHWYSEDD A SGORIO

Mae'r tabl isod yn nodi'r meini prawf a fydd yn cael eu hasesu yn y cais, ystod y sgoriau a ddefnyddir a'r pwysoliad a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r sgôr terfynol a aseswyd. Defnyddir dull pwysoli i bennu trefn pwysigrwydd ar gyfer y meini prawf diffiniedig. Mae disgrifiad o'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r meini prawf wedi'i gynnwys ym mhrif gorff y canllawiau. Mae rhagor o gyfarwyddyd ar gael yn y ffurflen gais.

	Meini Prawf Dethol	Sgôr	Ffactor pwysoli
A	Manteision clir, y gellir eu dangos i safle Natura 2000	0-5	x 5
B	Gwerth am arian	0-5	x 4
C	Y gallu i gyflawni yn unol â'r amserlen a defnyddio arian cyfalaf	0-5	x 3
D	Defnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) wrth gynllunio a darparu'r prosiect, gan gyfeirio'n benodol at Gydnerthedd, Manteision a Chynaliadwyedd Hirdymor	0-5	x 3

System Sgorio ar gyfer Ceisiadau Grant

Bydd ceisiadau grant yn cael eu hasesu dan bob un o'r penawdau uchod gan ddefnyddio'r system sgorio ganlynol:

Gallu	Dystiolaeth a ddarparwyd	Sgôr	Sylw
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn ddigon clir a chadarn i fod yn hyderus bod modd gweithredu'r prosiect.	Mae'r cynnwys yn gyson, yn gynhwysfawr, yn gryf ac yn uniongyrchol berthnasol i'r cynllun grant ym mhob ffordd, ac mae'n gredadwy iawn.	5	Hyder Llwyf
	Mae'r cynnwys yn ddigonol (mewn termau ansoddol), yn argyhoeddi, ac yn gredadwy.	4	Hyder
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn dangos risg fach i weithredu'r prosiect.	Ceir bylchau bach yn y cynnwys, neu nid yw'n argyhoeddi'n gyfan gwbl; ceir diffyg hygrededd neu berthnasedd i'r cynllun.	3	Mân Bryderon
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais yn dangos risg gymedrol i weithredu'r prosiect.	Ceir bylchau cymedrol yn y cynnwys ac felly nid yw'n argyhoeddi.	2	Pryderon Cymedrol
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn dangos risg sylweddol i weithredu'r prosiect.	Ceir bylchau mawr yn y cynnwys, nid yw'n argyhoeddi ar sawl ystyr, ceir diffyg hygrededd, a/neu mae'n amherthnasol i'r cynllun i raddau helaeth.	1	Pryderon Mawr
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn dangos nad oes modd gweithredu'r prosiect fel y mae wedi'i ddisgrifio.	Mae'r cynnwys yn gamarweiniol, yn amherthnasol neu'n anghymwys.	0	Annerbyniol

Ni fydd unrhyw gais yn symud ymlaen os yw'n sgorio llai na'r trothwy ansawdd sylfaenol, sef 45

Bydd sgôr o 0 yn unrhyw un o'r meini prawf yn atal y cais rhag symud ymlaen.

ATODIAD E - ARIAN CYFALAF

Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn pennu sut y gellir defnyddio cronfa gyfalaf SMS-N2K.

Y gwahaniaeth presennol rhwng Cyfalaf a Refeniw

Dyma ddosbarthiadau cyfredol y 'Llyfr Gwyrdd':

- a) Mae gwariant **adnoddau/refeniw** yn arian sy'n cael ei wario ar adnoddau a chostau gweinyddu o ddydd i ddydd. Mae gwariant refeniw yn ymwneud â chostau parhaus. Gall y rhain gynnwys y symiau sy'n cael eu gwario ar waith atgyweirio a chynnal a chadw, gwerthu, treuliau gweinyddol cyffredinol, staffio ac ati.

Mae **gwariant cyfalaf** yn arian sy'n cael ei wario ar fuddsoddi ac eitemau a fydd yn creu twf yn y dyfodol. Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â buddsoddi mewn ased hirdymor fel offer neu adeiladau gan ddefnyddio buddsoddiad sydd wedi'i rwymo gan amser. Gallai enghreifftiau o wariant cyfalaf gynnwys y symiau sy'n cael eu gwario i wella'n sylweddol asedau fel tir, adeiladau, offer.

Natur fel ased cyfalaf

Mae natur yn ased. Gellir dosbarthu gwaith i atal a gwrthdroi'r dirywiad ym myd natur fel gwariant cyfalaf yng Nghymru oherwydd;

- Natur yw ein hased mwyaf, mae'n sylfaen i bopeth rydym yn ei wneud yn awr ac yn y dyfodol, fel cymdeithas.
- Mae natur yn ased a fydd yn creu twf yn y dyfodol.
- Mae natur yn ased parhaol, mae yno ar gyfer y genhedlaeth hon a holl genedlaethau'r dyfodol.
- Mae'n sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae cyfalaf yn cynnwys gwaith i fuddsoddi mewn, adfer, gwella a chaffael asedau naturiol

Felly, mae caffael, adfer a gwella natur yn rhaglen gyfalaf.

- Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â buddsoddi mewn, adfer, gwella neu gaffael natur er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- Rydym wedi gadael i natur 'ddadfeilio' (a elwir yn statws anffafriol). Mae angen unioni hyn ar raddfa leol a chenedlaethol; mae adfer natur yn fuddsoddiad cyfalaf, yn yr un modd ag y mae adfer adeilad yn wariant cyfalaf.
- Mae adfer natur yn broses sy'n cymryd blynyddoedd lawer, a gall cyflwyno prosiect cyfalaf o'r fath gymryd 5 mlynedd.
- Ar ôl creu ased naturiol, dros gyfnod o 5 mlynedd o bosibl, mae angen ei gynnal wedyn (yn union fel ased gwneud).

- Mae enghreifftiau o wariant cyfalaf yn cynnwys y symiau sy'n cael eu gwario i wella natur yn sylweddol, megis gwaredu defnydd presennol ac adfer natur, creu mannau ar gyfer natur, plannu ac ailblannu, newid defnydd, newid dull rheoli, buddsoddi mewn arbenigedd, hyfforddiant a gwybodaeth am natur.

Dosbarthu rhaglen gyfalaf

Mae'r asedau hyn yn cael eu creu er budd pobl Cymru. Bydd angen cynnal yr asedau sy'n cael eu creu mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol, ar ôl i'r buddsoddiad cyfalaf a ddefnyddiwyd i'w creu a'u sefydlu ddod i ben.

Wrth eu hystyried yn eu cyfanrwydd ar draws y rhaglen, mae'r gwaith o wella safleoedd Natura 2000 yn ased cyfalaf. Bydd gweithgareddau o fewn y rhaglen SMS-N2K yn cael eu cyflawni yn ystod oes y rhaglen ac yn cael eu cydgrynhoi â lefel y rhaglen, a chaiff y rhain i gyd eu hystyried yn wariant cyfalaf.

O safbwynt costau cyfalaf o fewn pob prosiect/gweithgaredd sy'n rhan o'r rhaglen gyffredinol:

- Mae prynu peiriannau yn enghraifft o gyfalaf. Hefyd, mae angen hyfforddi pobl i'w defnyddio. Yn ystod y flwyddyn ariannu mae cyfalaf yn cynnwys gweithredwyr a thanwydd hefyd. Mae'r rhain yn creu'r ased sydd angen ei gynnal yn barhaus wedyn. Felly, wrth gael eu cyflwyno fel pecyn, maent yn cynrychioli cost cyfalaf fel rhan o ddarparu'r ased sy'n cael ei greu.
- Fel arfer, ystyrir bod un fforc/trywel/rhaw/coeden/bwlb neu blanhigyn yn gost refeniw yn hytrach nag yn gost cyfalaf. Fodd bynnag, mae buddsoddi mewn gwaith i greu coetir mewn safle N2K yn gost cyfalaf, gan ei fod yn creu ased clir ar gyfer y dyfodol. At ddibenion y rhaglen SMS-N2K hon lle mae nifer o blanhigion/bylbiau/coed yn cael eu plannu ar draws y prosiectau SMS N2K ledled Cymru, mae'r gwaith yn creu nifer o asedau lleol, yn enwedig o'i gydgrynhoi hyd at lefel rhaglen. Yn yr un modd, mae prynu cyfarpar sydd ei angen ar raddfa fawr er mwyn darparu ased yn wariant cyfalaf hefyd.
- Bydd costau newid ffensys i ddiogelu a gwella mannau ar gyfer natur yn helpu i ddarparu'r ased ac felly maent yn cael eu hystyried yn gostau cyfalaf yn yr un modd ag asedau cyfalaf ehangach.
- Pan fydd ased naturiol yn cael ei blannu am y tro cyntaf, mae'n gallu cymryd hyd at 5 mlynedd i'r ased hwnnw fod yn hyfw (er enghraifft, os ydych yn plannu coeden, mae angen ei meithrin i aeddfedrwydd tua 5 mlynedd cyn y bydd yn gynaliadwy). Mae'r gwaith hwn, sef rheoli cynaliadwy, monitro ac unioni/adfer, a datblygu treigl, yn cael ei ystyried yn waith cyfalaf. Mae'n gwbl wahanol i waith cynnal a chadw cyffredinol ased presennol, sy'n waith refeniw.
- Cost clirio safle a'i ffensio neu blannu lle mae'r gost yn cynnwys nid y deunyddiau yn unig, ond cost y llafur sydd ei angen i sefydlu'r ased.
- Clirio ardal er mwyn creu, cynyddu neu wella gwerth yr ased (gan gynnwys gweirglodd blodau gwyllt, gwarchodfa natur, ymyl, man cyhoeddus agored, coedwig, safle tir llwyd ac ati). Gall hyn gynnwys gwaredu rhywfaint o lystyfiant os oes rhesymau clir dros wneud hynny, a phlannu llystyfiant newydd i sicrhau bod y math priodol o lystyfiant yn y lle cywir ac ati. Byddai'r holl gostau hyn yn

cael eu hystyried yn gost cyfalaf, yn enwedig wrth gael eu cydgrynhoi ar draws rhaglen.

- Mae gwaith gwaredu rhywogaethau goresgynnol, halogiad neu falurion i greu lle i natur, sy'n cael ei ailblannu wedyn i ddod yn ased, hefyd yn waith cyfalaf.

Darparu

Darparu'r cynllun grant cyfalaf:

- Yn seiliedig ar gynseiliau a osodwyd trwy raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gellir defnyddio tua 10% o gyfanswm y dyfarniad i sefydliad i reoli/gweinyddu'r prosiect o fewn y cyfalaf a ddyrennir.
- Gellir cyfalafu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ased;
 - Gallwn gyfalafu elfen o'r weinyddiaeth oherwydd bod 'swyddfa'r rhaglen' yn rhan o'r prosiect; rheolwr y prosiect, staff y swyddfa;
 - Mae staff ar lawr gwlad sy'n ymgymryd â phrosiect hefyd yn rhan o'r prosiect, yn ogystal â hyfforddi staff i wneud y gwaith.
- Mae "gwaith cynnal a chadw parhaus" o unrhyw ased byw yn gost refeniw, am nad yw'n cynyddu gwerth yr ased, felly mae'n rhaid i waith adnewyddu asedau byw, a chynnal a chadw asedau byw yn barhaus, fod yn gost refeniw.
- Os yw'r ased wedi marw bellach, nid oes unrhyw werth iddo, ac mae'r gwaith o'i dynnu a'i ailblannu yn gost cyfalaf.
- Os oes angen to newydd ar adeilad (gan nad yw'r to'n addas i'r diben, a'i fod yn gollwng dŵr), yna mae'n waith cyfalaf. Felly, os nad yw ased naturiol yn addas i'r diben, mae gwerth yr ased yn llai, ac mae cynyddu safon yr ased hwnnw yn gost cyfalaf. O ganlyniad:
 - Os yw safle Natura 2000 mewn statws anffafriol, mae gwaith i sicrhau bod gan y safle statws ffafriol yn gost cyfalaf.
 - Os oes gan fawnog sianeli draenio, mae gwaith llenwi'r sianeli ac adfer y gors yn gost cyfalaf.
 - Os oes ased naturiol wedi'i ddiraddio (ei dorri'n anghywir, math anghywir o blanhigion/coed, concrit, amharu ar y cyflenwad dŵr, ac ati) mae gwaith i adfer yr ased yn gost cyfalaf.

Gweithio ar lefel y DU ar asedau naturiol

Nid yw ein meddylfryd yn Llywodraeth Cymru yn ynysig, ac mae amryw o Adrannau Llywodraeth y DU wedi bod yn archwilio cyfalaf naturiol.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio ar gyfrifon cyfalaf naturiol <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/uknaturalcapitalaccounts/2019>

DEFRA

Mae DEFRA yn ymchwilio i gyfrifyddu cyfalaf naturiol a sut i asesu manteision cymdeithasol ac economaidd cynnal a gwella cyfalaf naturiol ledled y DU. Mae'n edrych ar y defnydd ymarferol o ddulliau cyfalaf naturiol.

Pwyllgor Cyfalaf Naturiol y DU

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf Naturiol yn cynghori Llywodraeth y DU ac mae wedi cyhoeddi swm sylweddol o ganllawiau.

